**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

14 Tachwedd 2022

Annwyl Jack

**Deiseb P-06-1242 – Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 27 Hydref 2022 ynghylch y ddeiseb uchod, lle gwnaethoch ofyn a ydym yn bwriadu gwneud unrhyw waith ar y maes pwnc hwn yn y dyfodol agos.

Wrth ymateb i'n hymgynghoriad ar flaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd, tynnodd nifer o bobl sylw at y ffaith nad oes cynllun iechyd penodol ar gyfer 'menywod a merched' yng Nghymru. Yn dilyn hynny, cafodd iechyd menywod ei nodi gan y Pwyllgor fel mater blaenoriaeth i'w ystyried yn ystod y Senedd hon.


Gwnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth gychwynnol gyda rhanddeiliaid allweddol ar 10 Mawrth 2022, er mwyn archwilio'r dystiolaeth ynghylch cael cynllun iechyd ar gyfer menywod a merched, a'r hyn y dylai cynllun o'r fath ei gynnwys. Yn dilyn hynny, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gan grynhoi'r materion allweddol a drafodwyd gyda'r rhanddeiliaid, a chan codi nifer o bwyntiau i'w hystyried wrth ddatblygu datganiad ansawdd a chynllun ar gyfer iechyd menywod a merched. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod y cam o benodi nyrsys endometriosis arbenigol ym mhob bwrdd iechyd ledled Cymru, ynghyd â chwestiwn i'r Gweinidog ynghylch a oedd ei hymrwymiad i wella gwasanaethau iechyd menywod yn cynnwys gwella argaeledd gwasanaethau arbenigol er mwyn diwallu anghenion iechyd menywod ledled Cymru.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym unrhyw gynlluniau penodol i archwilio gwasanaethau endometriosis, er bod y Pwyllgor yn adolygu ei flaenraglen waith yn rheolaidd. Fodd bynnag, gwnaethom ystyried materion yn ymwneud ag amseroedd aros ym maes endometriosis wrth wneud ein gwaith ar effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros y GIG, yn enwedig mewn perthynas â thalu am weithdrefnau diagnostig. Gwnaethom dynnu sylw at y dystiolaeth a gawsom gan Endometriosis UK ar y mater hwn

yn yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym ym mis Ebrill 2022, sef *Aros yn iach? Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru*.

Bydd eich llythyr yn cael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer ein cyfarfod ar 17 Tachwedd 2022, pan fyddwn yn gofyn i'r Aelodau ei nodi'n ffurfiol, gan dynnu sylw pellach at y ddeiseb a'r materion pwysig y mae'n eu codi.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.